NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Mewnosod stent gelatin ar draws gwyn y llygad drwy ddull isgyfbilennol microymyrrol ar gyfer glawcoma ongl agored sylfaenol

25 Ebrill 2018

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio neu ba mor ddiogel ydyw ar gyfer glawcoma ongl agored sylfaenol. Gellir defnyddio'r driniaeth hon, ond dim ond pan fydd cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau.

Mae glawcoma ongl agored sylfaenol yn gyflwr sy'n gwaethygu, lle mae hylif yn cronni yn y llygad gan achosi i'r pwysedd gynyddu. Mae hyn yn niweidio'r nerf sy'n cysylltu'r llygad â'r ymennydd (nerf optig) a gall arwain at golli golwg os na chaiff ei drin. Yn y driniaeth hon, caiff tiwb bach gelatin (stent) ei fewnosod o dan y croen ar waelod y llygad er mwyn creu sianel ddraenio newydd ar gyfer hylif gormodol. Mae hyn yn lleihau'r pwysedd yn y llygad. Caiff y driniaeth hon ei chynnal ar ei phen ei hun neu yn ystod llawdriniaeth ar gyfer cataractau. Y nod yw lleihau'r pwysedd yn y llygad.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

**A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-2938-2

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights